

**Arolygiad Iechyd Meddwl
/ Anabledd Dysgu
(dirybudd)
Ysbyty Aderyn**

17 – 19 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Methodoleg.....	5
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	7
4. Crynodeb.....	8
5. Canfyddiadau	10
Safonau Craidd	10
Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl	18
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	19
6. Y Camau Nesaf	20
Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn bodloni'r canlynol:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau allweddol a gweithdrefnau
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon ac atgyfeiriadau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau, gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd, ym maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu, ag ysbyty Aderyn ar brynhawn 17 Mai a thrwy'r dydd ar 18 a 19 Mai 2015.

Cofrestrwyd yr ysbyty gyntaf yn 2001 er mwyn darparu gwasanaeth niwed i'r ymennydd; fodd bynnag, ers 20 Hydref 2006, mae'r cofrestriad wedi'i newid i ddarparu 19 o welyau i ddynion dros 18 oed sydd ag angen adsefydliad seiciatrig. Mae amodau cofrestru ychwanegol yn nodi bod yn rhaid i gleifion gael anhwylder meddyliol a bod yn agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae ysbyty Aderyn hefyd wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth dydd i uchafswm o ddau glaf fel rhan o'u rhaglen adsefydlu a'u paratoad i adael gofal. Mae'r ysbyty yn eiddo i Partnerships in Care ac yn gweithredu fel ward allanol ar gyfer Ysbyty Llanarth Court ger y Fenni.

4. Crynodeb

Roedd ein harolygiad o ysbyty Aderyn ym mis Mai 2015 yn un cadarnhaol, a nodwyd bod nifer o feysydd o arfer nodedig ar waith. Canfuom fod lle i wella, ond roeddem hefyd yn falch o nodi canfyddiadau da, ac roedd hi'n braf nodi'r gwelliannau a wnaed ers ein hymweliad diwethaf ym mis Mawrth 2014.

Roedd y staff a'r cleifion yn groesawgar drwy gydol ein hymweliad, a gwnaethant ymateb yn gadarnhaol i'r broses arolygu. Canfuom mai amrywiol oedd ysbryd y staff, yn sgil newidiadau i systemau gweithredu a datblygiadau'r uned, ac mae angen rhoi sylw i hyn. Roeddem yn falch o nodi'r gwelliannau sylweddol i'r hyfforddiant gorfodol ers ein hymweliad diwethaf ym mis Mawrth 2014.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn lân a thaclus yn ystod ein hymweliad, ond dylid rhoi ystyriaeth i batrymau sifft y gofalwr, oherwydd ar ôl 1 p.m. yn ystod yr wythnos a thros y penwythnos, nid oedd staff cadw tŷ ar gael. Nid yw'n dderbyniol bod staff yn cael eu defnyddio i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn absenoldeb gweithwyr cadw tŷ, ac yn cael eu tynnu o ofal y cleifion.

Gwnaethom nodi amryw o feysydd yn yr ysbyty trwyddo draw sydd angen sylw, yn benodol y peiriant dŵr ar y llawr cyntaf, a oedd yn cronni dŵr yn y dysgl dal diferion, gan ryddhau arogl amhleserus. Roedd yr oergelloedd yng nghegin y practis yn cynnwys eitemau bwyd a oedd wedi hen basio'u dyddiad dod i ben. Mae angen rhoi sylw i gynnal a chadw rhannau o ardd ac iard yr ysbyty, yn ogystal â chefn yr adeilad, a oedd â phaent yn pilio a chwyn yn tyfu o'r wal. Roedd angen adnewyddu'r clinig/ystafell driniaeth oherwydd roedd blaenau rhai droriau yn eisiau a'r llawr wedi cael difrod. Roedd mannau eraill o'r ysbyty, gan gynnwys yr ystafell fwyta, yn ymddangos yn llwm oherwydd nad oedd digon o waith celf/lluniau wedi cael ei arddangos. Cadarnhawyd bod rhaglen gynnal a chadw ar waith i ddisodli, ailaddurno a diweddarw dodrefn ac addurniadau ledled yr ysbyty. Mae'n hanfodol bod pob rhan o'r ysbyty yn cael ei hadolygu i sicrhau bod rhaglen o waith cynnal a chadw yn cael ei gweithredu.

Mae adborth y cleifion ynghylch y bwyd sy'n cael ei weini yn yr ysbyty yn parhau i fod yn gadarnhaol, a rhoddir dogneau o faint gweddol. Dylid adolygu'r profiad bwyta i sicrhau bod byrddau'n cael eu gosod yn addas, ond mae staff y gegin yn gweithio'n dda â'r cleifion a'r staff ac yn sicrhau bod unrhyw geisiadau dietegol yn cael eu bodloni.

Roedd safon a dyfnder y cynlluniau gofal wedi gwella'n sylweddol. Defnyddiwyd system 'nodiadau gofal' yn gyflawn, ac ymgorfforwyd awgrymiadau i mewn i'r system i greu a chynnal arferion da. Roedd y rhestr wirio, a gyflwynwyd ac a ddefnyddir ar gyfer archwilio'r ystafell driniaeth a rheoli meddyginiaeth, yn enghraifft o arfer a rheolaeth dda.

Roedd y cyfarfodydd adolygu gofal unigol wedi'u canoli ar y cleifion, ac roedd y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd cysylltiadau da wedi'u meithrin gyda meddyg lleol a nyrs iechydd corfforol.

Darparai Aderyn gysylltiadau cymunedol da, gan gynnig cyfleoedd i'r cleifion astudio mewn colegau, cael profiad gwaith, a rhyngweithio'n gymdeithasol. Mae angen adolygu'r lefelau staffio er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â chynlluniau gofal y cleifion. Hefyd, nid oedd dau o gerbydau'r ysbyty ar gael yn ystod ein hymweliad, oherwydd gwnaed gwaith cynnal a chadw arnynt, ac o ganlyniad ni fedrodd un claf fynd ar ddwy daith am fod angen y cerbyd ar gyfer teithiau eraill.

Mae'r ysbyty wedi meithrin cysylltiadau, ymddiriedaeth a rhwydweithiau da gyda'r gymuned leol, sydd wedi bod o les i'r cleifion, staff a'r gymuned leol.

Gwnaethom adolygu cofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl a nodi eu bod yn gymwys a bod y ddogfennaeth gyfreithiol yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Mae dau llawr i ysbyty Aderyn, ac mae'r llawr cyntaf yn cynnwys mwyafrif yr ystafelloedd gwely, yr ystafelloedd ymolchi, a'r ystafell gyfrifiaduron. Roedd y cleifion yn gallu dringo i'r llawr cyntaf ar y grisiau neu yn y lifft, a reolwyd gydag allwedd y staff. Roedd peiriant dŵr ar y llawr cyntaf a oedd yn cronni dŵr yn y dysgl dal diferion, gan ryddhau arogl amhleserus. Trafodwyd hyn gyda'r staff ar y pryd, a glanhawyd y peiriant dŵr yn drwyadl. Cadarnhaodd y staff y byddai'n cael ei archwilio'n rheolaidd o hyn ymlaen.

Wrth gyrraedd adeilad ysbyty Aderyn, rydych yn myned i mewn i gyntedd mawr sydd ag amryw o ystafelloedd wedi'u cysylltu â hi. Roedd y cyntedd yn cynnwys nifer o hysbysfyrddau a oedd yn arddangos gwybodaeth megis amserlenni bysys, hysbysiadau am gyfarfodydd sydd i ddod a the boreol, a bwrdd gwybodaeth ac arno amserau gadael a dychwelyd y cleifion a manylion y nyrs benodedig. Roedd blwch awgrymiadau ar gael hefyd yn y cyntedd at ddefnydd pawb, gan gynnwys cleifion.

Ceid lolfa/ystafell sesiwn, ac ynddi naw cadair esmwyth, yn gyfochrog â'r cyntedd. Roedd hi'n ystafell bleserus ac iddi olygfeydd dros dir yr ysbyty. Roedd gan yr ystafell gwpwrdd llyfrau oedd yn dal llyfrau a DVDau, ac roedd lluniau ar y wal. Roedd nifer o blanhigion yn y lolfa a oedd yn perthyn i glaf yn Aderyn.

Gyferbyn â'r lolfa/ystafell sesiwn roedd yr Ystafell Las a heulfan. Ar adeg ein hymweliad, roedd staff a chleifion yn chwarae pŵl yn yr heulfan, a oedd hefyd yn cynnwys casgliad o gyfarpar ymarfer corff a bwrdd dartiau. Roedd yr ystafell yn olau ac unwaith eto yn edrych dros dir yr ysbyty. Roedd yr Ystafell Las yn fawr ac iddi waliau glas a digon o seddi ar gyfer y grŵp o gleifion. Roedd teledu a DVDau ar gael, ynghyd â phapurau newydd, ffrwythau a phlanhigion. Cadarnhaodd y staff fod dodrefn newydd wedi'u harchebu am fod y rhai presennol wedi'u treulio ac yn fwy addas ar gyfer lleoliad diogel canolog.

Roedd ystafell fwyta ar wahân gyferbyn â'r swyddfa nyrsio, ac roedd yr ystafell wedi'i haddurno'n ddigonol ac roedd bwydlen ac amserau bwyd wedi'u harddangos. Roedd gan yr ystafell fwyta ddigon o fyrddau a chadeiriau i'r grŵp o gleifion gael bwyta ynghyd. Gwelwyd nad oedd lluniau ar waliau'r ystafell fwyta ar adeg ein hymweliad ac felly ymddangosai'n llwm, ac yn ystod amserau bwyd nid oedd lliain bwrdd na dŵr ar y bwrdd. Dylid ystyried yr agweddau hyn a nodwyd er mwyn gwella profiad bwyta'r claf.

Ceid ffôn talu mewn ystafell fach fel bod modd i gleifion wneud galwadau yn breifat i deulu a ffrindiau. Roedd cadair yn yr ystafell ac roedd y ffôn yn gweithio'n iawn, a gellid trosglwyddo galwadau o'r tu allan hefyd i'r ffôn hwn.

Tuag at gefn yr adeilad roedd ystafell goffi lle y gallai cleifion baratoi diodydd ar unrhyw adeg. Roedd y gegin yn lân ac roedd oergell a pheiriant dŵr ar gael. Roedd ychydig gadeiriau yn yr ystafell, a oedd yn wynebu iard ac yn rhoi mynediad iddi. Paentiwyd waliau'r iard yn llachar ac oddi mewn iddynt roedd seddi a chysgodfan. Defnyddiwyd yr iard yn bennaf fel lle i ysmygu. O gwmpas yr ochrau roedd gwelyau blodau, a oedd angen sylw arnynt oherwydd roedd chwyn yn dechrau goresgyn. Gosodwyd rhai seddi yng nghanol yr iard, a defnyddiwyd bwcedi fel biniau, a oedd yn llawn ac angen eu gwacáu ar adeg ein hymweliad. Byddai'r iard ar ei hennill o gael rhywfaint o sylw a gwaith cynnal a chadw yn sgil yr hyn a nodwyd gennym, ac fe allai roi cyfleoedd i'r cleifion wneud y gwaith hwn.

Roedd golchdy ar gael i'r cleifion gael golchi eu dillad eu hunain, a phennwyd cyfnodau iddynt ar yr amserlen gogyfer â defnyddio'r peiriannau. Roedd ystafell gyfweld ac ystafelloedd tawel ar gael hefyd. Roedd cadeiriau yn yr ystafelloedd a lluniau ar y wal, ac roeddent at ddefnydd staff, cleifion ac ymwelwyr. Roedd gan gleifion eu loceri eu hunain i gadw eitemau personol. Lleolwyd nifer o swyddfeydd ar gyfer therapi galwedigaethol a gwasanaethau seicoleg i lawr llawr.

Roedd cegin y practis yn cynnig cyfleusterau a chyfarpar i gleifion gael paratoi a choginio eu bwyd eu hunain. Yn ystod ein hymweliad, daethom o hyd i sawl eitem yn yr oergell a oedd wedi pasio'i dyddiad gwerthu.

Wrth ochr ysbyty Aderyn, ceir bwthyn sy'n gyfleuster 'cam-i-lawr' â dau wely ac sy'n cynnig cyfle i gleifion fyw'n rhannol annibynnol. Yn y bwthyn, ceid ystafelloedd cyfarfod a gweithdy coed. Nid oedd yr ardd yng nghefn yr adeilad yn gydnaws â'r gerddi wrth fynedfa'r ysbyty, ac roedd felly angen sylw.

Roedd rhannau o'r ysbyty'n edrych yn ddi-raen, ac roedd angen rhoi sylw iddynt a'u hadnewyddu. Sylwom fod prinder gwaith celf/lluniau wedi'u harddangos drwy'r ysbyty, a fyddai wedi hybu perchnogaeth a stamp personol y cleifion ym mannau'r cleifion. Yng nghefn adeilad yr ysbyty, roedd chwyn yn tyfu o'r wal a phaent yn pilio. Roedd angen sylw ar yr ystafell driniaeth hefyd, yn enwedig y llawr – a oedd wedi cael difrod – a blaenau'r droriau, a oedd yn eisiau ac angen eu hadnewyddu. Dywedodd y staff wrthym fod rhaglen o waith cynnal a chadw ar waith ac y bydd rhai o'r meysydd a nodwyd gennym yn derbyn sylw maes o law.

Roedd glendid yr amgylchedd yn dda yn ystod ein hymweliad, ond gwelsom rai e-byst o fis Mai 2015 pan oedd yr amgylchedd yn sâl am nad oedd y gofalwr ar ddyletswydd. Nid oes gofalwyr ar ddyletswydd ar benwythnosau,

na chwaith ar ôl 1 p.m. yn ystod yr wythnos. Yn ogystal, nid oedd rhywun penodol yn cyflenwi gwaith y gofalwr pan oedd ar wyliau neu'n sâl, ac roedd yr e-byst dyddiedig Mai 2015 yn cyfeirio at un o'r adegau hyn pan oedd y gofalwr yn absennol a'r safonau glendid yn wael o ganlyniad. Mae'n hanfodol bod glendid yr amgylchedd yn parhau ar safon uchel bob amser, ac mae angen adolygu'r drefn o gyflenwi gwaith y gofalwr i sicrhau bod penwythnosau, gwyliau a dyddiau'r wythnos ar ôl 1 p.m. yn cael eu cyflenwi gan ofalwr penodol.

Gofynion

Mae angen cynnal a chadw, glanhau, a gwirio cyfarpar ac eitemau bwyd i sicrhau eu bod yn lân neu'n fwytadwy neu'n addas i'w defnyddio, gan roi sylw arbenng i'r peiriant dŵr a bwyd a gedwir yn yr oergelloedd.

Mae gofyn adolygu'r profiad bwyta i sicrhau bod y byrddau wedi'u gosod yn addas a bod dŵr ar gael.

Mae gofyn cael rhaglen o waith cynnal a chadw i sicrhau bod yr ysbyty'n cynnal safonau boddhaol. Mae angen rhoi sylw arbennig i'r gerddi a'r iard, gan waredu â'r chwyn o blastar wal yr ysbyty ac ymdrin â'r paent sy'n pilio. Dylid rhoi sylw i'r clinig/ystafell driniaeth er mwyn adnewyddu blaenau'r droriau a'r llawr a ddifrodwyd.

Mae angen adolygu'r oriau gofal tŷ i sicrhau bod penwythnosau, prynhawniau a gwyliau yn cael eu cyflenwi heb gymryd staff i ffwrdd o ofal uniongyrchol y cleifion.

Diogelwch

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn ysbyty Aderyn, ac ni wnaeth staff fynegi unrhyw bryderon o ran diogelwch. Roedd prif fynedfa'r ysbyty ar glo, ac felly rhaid i'r holl ymwelwyr ganu cloch y drws i gael mynediad. Roedd gan gleifion gardiau allwedd i'w galluogi i adael yr adeilad. Gwisgai'r holl staff larymau diogelwch personol yn ystod ein hymweliad, ac fe'u rhoddwyd i AGIC yn ystod ein hamser yn yr ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym y bydd y dyletswyddau cadw tŷ yn cael eu gwneud gan y staff yn absenoldeb y gofalwr. Lleisiwyd pryderon bod y sefyllfa hon yn rhoi rhagor o waith i'r staff ac yn eu tynnu ymaith o ofal uniongyrchol y cleifion. Mynegodd y staff bryderon hefyd ynglŷn â chynnal dyletswyddau'r gofalwr i atal croes-heintio, a diffyg dillad diogelu.

Roeddem yn falch o nodi bod gwelliant wedi bod yn y clinig/ystafell driniaeth a nodwyd gennym ym mis Mawrth 2014. Roedd archwiliadau wedi'u cyflwyno

hefyd, a gwblhawyd a llofnodwyd gan y rheolwyr, a chafodd yr holl gyfarpar ei galibreiddio ym mis Chwefror 2015.

Roedd ysbyty Aderyn wedi meithrin cysylltiadau a rhwydweithiau da gyda'r gymuned leol. Pan adawodd claf yn ddiweddar, heb ganiatâd, rhoddodd y staff yn Aderyn rybudd i'r gymuned leol, a rhoesant wybod iddynt pan ddaethpwyd o hyd iddo. Mae'r arfer hwn wedi bod o les i bawb yn y gymuned, ac o ganlyniad adeiladwyd ymddiriedaeth rhwng yr ysbyty a'r gymuned leol.

Cam gofynnol

Rhaid i'r gwaith gofal tŷ gael ei gyflenwi pan fydd y gofalwr yn absennol, heb gael effaith ar staff sy'n darparu gofal i gleifion.

Y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaeth yr holl staff y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â dull y tîm amlddisgyblaethol o weithio. Dywedodd y staff fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn digwydd yn rheolaidd a bod pob disgyblaeth yn cael ei chynrychioli, gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, meddygon a nyrsys. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn rhai cydweithredol lle y lleisir barn a safbwyntiau gan y disgyblaethau i gyd a lle mae'r staff yn teimlo bod parch i'w gilydd.

Buom yn bresennol mewn cyfarfod Adolygu Gofal Unigol a sylwi bod holl aelodau'r cyfarfod yn cael eu cynnwys a bod y trafodaethau'n canolbwyntio ar anghenion y claf.

Preifatrwydd ac urddas

Dyweddodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn ysbyty Aderyn a'u bod wedi cael eu tywys o amgylch yr ysbyty pan gawsant eu derbyn yno. Dywedodd un claf wrthym am ei rôl fel 'cyfaill' yn dangos cleifion newydd o gwmpas a'u helpu i ymgynefino.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun lle y gallai gadw ei eiddo ei hun. Gallai'r cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely, a dywedasant bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu, gyda'r staff yn cnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely cyn dod i mewn.

Roedd cyfleusterau yn yr ysbyty i alluogi cleifion i gwrdd â theulu a ffrindiau yn breifat, ac roedd ffôn talu at ddefnydd y cleifion. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt nyrs benodedig, a'u bod yn gallu siarad â hi'n breifat.

Dyweddodd staff wrthym fod gan yr ysbyty ddigon o le i alluogi cleifion i gael digon o breifatrwydd ac urddas, ac yn ystod ein hymweliad, gwelsom

ryngweithio da rhwng staff a chleifion, a staff yn trin cleifion gydag urddas a pharch.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Cynigiai ysbyty Aderyn amrywiaeth eang o weithgareddau a therapiau i gleifion. Cynhelir cyfarfod bore/dyddiadur bob dydd lle trafodir amserlen y diwrnod. Arweiniwyd y cyfarfodydd gan nyrsys ac anogwyd cleifion i fynychu. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom arsylwi ar ddau gyfarfod bore/dyddiadur. Mynychwyd y cyfarfodydd gan y staff oedd ar gael, ac yn y ddau gyfarfod roedd wyth claf yn bresennol. Trafododd y cyfarfodydd yr hyn oedd ar waith y diwrnod hwnnw, ac roedd yn cynnwys pynciau megis amserlen y golchdy, y grwpiau oedd yn cwrdd megis byw'n iach, hunanarlwyo a chynllun gweithredu adfer lles (WRAP), siopa, mynd am dro o amgylch y gerddi, gwibdeithiau, a rhoi gwybod i gleifion pa nyrsys oedd yn edrych ar eu holau.

Dywedodd mwyafrif y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod digon o weithgareddau'n digwydd yn yr ysbyty, a dywedodd pob un bod yr ysbyty wedi gofyn iddynt beth oedd eu diddordebau. Roedd gan gleifion eu hamserlen bersonol, ac roedd amserlen weithgareddau gyffredinol ar waith ac wedi'i harddangos ym mannau'r cleifion. Cadarnhaodd yr uned seicoleg fod gweithgareddau'n newid yn ôl y grŵp o gleifion a bod cyfarfodydd cynllunio yn cael eu cynnal bob 12 wythnos sy'n cynnwys y grŵp o gleifion gymaint â phosibl, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau a therapiau yn berthnasol ar eu cyfer.

Roedd yr ysbyty'n cynnig cyfleusterau da at ddefnydd y cleifion, gan gynnwys cyfarpar ymarfer corff, bwrdd dartiau, a bwrdd pŵl yn yr heulfan. Roedd gweithdy gwaith coed ar gael yn y bwthyn, ac roedd ystafell storio beics ar gael lle y gallai cleifion wneud gwaith trwsio. Roedd gemau bwrdd, papurau newydd, llyfrau a DVDau ar gael, a chynhelid cwisiau a charioci drwy'r wythnos.

Roedd cyfleoedd i gleifion gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys un claf yn mynychu coleg lleol, rhai cleifion yn defnyddio'r pwll nofio lleol, ac eraill yn gwneud gwaith gwirfoddol gyda *Home Makers*, sef prosiect sy'n ailgylchu hen ddodrefn i greu dodrefn newydd. Roedd gan un o'r cleifion gyfrifoldeb dros gasglu papurau newydd yn ddyddiol o'r siop bapur newydd.

Roedd ystafell addysgol ac iddi rai cyfrifiaduron ar gael i gleifion ei defnyddio, a deuddydd yr wythnos mae tiwtor yn cynnig cyrsiau i gleifion lle y gallant gael cymhwyster.

Wrth drafod â staff therapi galwedigaethol, cadarnhawyd bod yr holl gleifion yn derbyn asesiad pan fyddant yn cael eu derbyn i ysbyty Aderyn. Cadarnhaodd yr uned therapi galwedigaethol eu bod yn cynnal amryw o

grwpiau bob wythnos, gan gynnwys grŵp bwyta'n iach; grŵp gofal personol lle mae golwg y person, anghenion emosiynol a materion ariannol yn cael eu trafod; a grŵp sgiliau cymdeithasol sy'n cwmpasu hunan-fri ac ysgogi. Roedd grwpiau coginio a hunanarlwyo ar waith hefyd, dan oruchwyliaeth staff therapi galwedigaethol.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom arsylwi ar grŵp WRAP (cynllun gweithredu adfer lles) yn digwydd, dan arweiniad yr uned seicoleg. Roedd y sesiwn yn un ryngweithiol gyda'r grŵp o gleifion ac yn ymwneud â phethau sy'n sbarduno ymddygiad. Rhoddodd y sesiwn gyfle i gleifion drin a thrafod sefyllfaoedd a allai sbarduno ymddygiad. Rhoddwyd taflen i gleifion a'r cyfle i'w llenwi yn eu hamser eu hunain, gan gyfeirio at sefyllfaoedd yn eu bywydau eu hunain lle y gallai sbardunau negyddol ddigwydd.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod digon o weithgareddau ar gael i gleifion a bod y diwrnodau'n go lawn. Dywedodd staff fod cleifion yn ymwneud yn fwy yn y broses o benderfynu ar eu gweithgareddau. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion y buom yn siarad â nhw fod y wibdaith ddarganfod wedi'i symud o'r penwythnos i'r wythnos, nad oedd wrth eu bodd. Dylid adolygu'r lefelau staffio ar benwythnosau oherwydd nid oedd modd i ddau glaf wneud gweithgareddau a oedd wedi'u nodi yn eu cynlluniau gofal. Dywedodd staff wrthym nad oedd modd i gleifion fynychu'r eglwys un penwythnos o achos prinder staff. Yn ogystal, nid oedd dau o gerbydau'r ysbyty ar gael yn ystod ein hymweliad, ac o ganlyniad bu'n rhaid canslo dwy daith ar gyfer un claf oherwydd bod yr unig gerbyd yn cael ei ddefnyddio. Dywedodd staff y byddai cleifion yn cael cymorth i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus os oes angen.

Roedd gan gleifion fynediad at feddyg teulu a fyddai'n ymweld ag Aderyn ddwywaith yr wythnos; roedd ciropodydd yn ymweld yn rheolaidd, ac roedd nyrs iechyd corfforol yn rhoi cymorth i'r staff ynghylch gofal iechyd corfforol y cleifion. Mae caplan hefyd yn ymweld ag ysbyty Aderyn yn rheolaidd.

Roedd gwasanaethau eiriolaeth ar waith i fod o gymorth i'r cleifion pan oedd arnynt eu hangen. Arddangoswyd posteri gyda manylion cyswllt ar gyfer eiriolaeth, a gwyddai'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw sut i gysylltu ag eiriolwr. Cadarnhaodd y staff fod eiriolwr iechyd meddwl annibynnol ac eiriolwr Hafal yn ymweld yn wythnosol, ac yn amlach os oes angen.

Cam gofynnol

Mae angen adolygu'r lefelau staffio er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â chynlluniau gofal y cleifion.

Bwyd a maeth

Dywedodd pob aelod o staff y buom yn siarad ag ef fod y bwyd sy'n cael ei weini yn ysbyty Aderyn yn fwyd o ansawdd da ac yn cynnig amrywiaeth o ran maeth. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion y siaradwyd â nhw eu bod yn mwynhau'r bwyd a'i fod wedi'i goginio'n dda. Roedd gan gleifion fynediad at ddiodydd a byrbrydau y tu hwnt i amserau bwyd, ac roeddent yn gallu prynu a storio eu bwyd eu hunain. Dyfeisiwyd bwydlenni ar gyfer cleifion â gofynion dietegol penodol, er mwyn diwallu eu hanghenion.

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol ynghylch maint y dognau bwyd, gan ddweud bod digon iddynt ac nad oeddent byth yn llwgu. Cadarnhaodd y staff fod digon o fwyd i'r cleifion. Wrth fwrw golwg ar archwiliad ynglŷn â bwyd, a wnaed ymhlith y cleifion ym mis Mawrth 2015, gwelwyd bod bodlondeb y cleifion ynghylch y bwyd a gafodd ei weini, y dewis a oedd ar gael, a chydbwysedd y fwydlen yn gyson â'r hyn a welsom yn ystod ein hymweliad.

Gellid rhoi adborth ar y bwyd yn y llyfr sylwadau a gedwid yn yr ystafell fwyt, ac roedd fforymau ar waith ar gyfer y cleifion lle byddai bwyd yn cael ei drafod.

Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn cael eu pwysu'n rheolaidd. Nid oedd dietegydd ar waith ar adeg ein hymweliad, ac roedd staff nyrsio a therapydd galwedigaethol yn gweithio gyda'r staff arlwyo ar anghenion byw'n iach. Ystyriai'r cogydd ddangos gwerth maethgol y prydau a ddarperir.

Hyfforddiant

Nododd adolygiad o ddeg ffeil staff fod yr holl wybodaeth cyn-gyflogaeth yn cael ei chadw yn adran adnoddau dynol Llanarth Court. Darparwyd cadarnhad bod gan y ffeiliau a adolygwyd wriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd yr holl wiriadau cyflogaeth, gan gynnwys geirdaon, datganiadau meddygol a chymwysterau/cofrestriadau proffesiynol, yn gyfredol ac yn gyflawn.

Roedd system arfarnu ar waith ar gyfer y staff, ac roedd tystiolaeth yn y ffeiliau a adolygom bod arfarniad blynyddol wedi digwydd yn 2014. Cynhaliwyd goruchwyliaeth staff hefyd. Roedd tabl goruchwyllo Aderyn ar gyfer mis Mai 2015 yn dangos bod sesiynau rheolwyr, grŵp ac arfer myfyriol wedi'u cynnal ar gyfer mwyafrif y staff. Roedd y golofn goruchwyliaeth glinigol yn wag, a dywedodd rhai staff fod angen goruchwyliaeth glinigol arnynt.

Amlygwyd yn ystadegau hyfforddiant gorfodol Aderyn bod gwelliant mawr wedi digwydd o ran hyfforddiant staff ers ein hymweliad diwethaf ym mis Mawrth 2014. Allan o 24 o gyrsiau gorfodol, roedd 17 ohonynt wedi'u cydymffurfio 100%. Y ganran isaf oedd 81.5% o gydymffurfiaeth, ar gyfer

symud ymaith a lleddfu sefyllfa, ond roedd staff wedi archebu lle ar gyrsiau ar gyfer Mehefin a Gorffennaf 2015.

Dywedodd staff fod cyfleoedd i wneud hyfforddiant allanol, ac roedd mwyafrif y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi derbyn hyfforddiant o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Dylid cyflwyno a chyflenwi hyfforddiant ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i'r staff am mai ychydig iawn a ddywedodd eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn. Hefyd, yn sgil cyflwyno system Nodiadau Gofal, dywedodd rhai staff fod angen rhagor o hyfforddiant arnynt ar gyfrifiaduron ar gyfer y system Nodiadau Gofal.

Wrth adolygu'r ffeil cwynion, gwelwyd mai ond un gŵyn a wnaed yn 2015. Nid oedd gan y ffeil cwynion gofnod cryno a fyddai'n rhoi trosolwg o'r cwynion i gyd, ond roedd archwiliad ar waith ar gyfer gwirio'r cwynion yn y ffeil. Roedd yr holl waith papur yn briodol, parthed y cwynion a adolygwyd gennym, ond nid oedd llythyr – y cyfeiriwyd ato mewn e-bost – yn y ffeil i gyd-fynd â chŵyn.

Amrywiol oedd ysbryd y staff ymhlith rhai ohonynt, yn sgil newidiadau i'r systemau gweithredu a datblygiadau'r uned. Gwnaeth y staff y buom yn siarad â nhw dynnu sylw at ragor o hyfforddiant ynghylch systemau cyfrifiadurol yn sgil cyflwyno, defnyddio a datblygiad parhaus y system Nodiadau Gofal. Yn ogystal, roedd diffyg cyfrifiaduron at ddefnydd y staff yn peri peth rhwystredigaeth. Mae'n hanfodol bod gan staff fynediad at gyfrifiaduron er mwyn cwblhau eu gwaith mewn modd amserol.

Gofynion

Dylid darparu a chynnal goruchwyliaeth glinigol ar gyfer pob aelod o staff yn rheolaidd.

Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr ar bob aelod o staff ar y system Nodiadau Gofal i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn gymwys.

Mae angen i bob cwyn gael gwybodaeth gynhwysfawr yn y ffeil a thystiolaeth i ddangos y rheswm am y canlyniad.

Mae angen cynnal adolygiad o'r materion a oedd yn peri bod morâl y staff yn amrywio, gyda'r nod o'i wella.

Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw pump o'r cleifion a oedd yn cael eu cadw yn ysbyty Aderyn ar adeg ein hymweliad. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Roedd y system Nodiadau Gofal a ddefnyddiwyd i gofnodi gwybodaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gynhwysfawr iawn, ac ymgorfforwyd awgrymiadau i mewn i'r system i hybu a chynnal arferion da. Er enghraifft, roedd angen i asesiad risg sylfaenol yr hebryngwr fod ar waith ar yr ECR cyn y rhoddwyd caniatâd i fod yn absennol.
- Roedd yr holl gofnodion a adolygwyd yn gymwys a'r ddogfennaeth gyfreithiol yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf.
- Roedd cofnod clir o hysbysu'r cleifion am eu hawlau dan Adran 132, a chedwid dogfennaeth cydsynio i driniaeth yn electronig ar y system Nodiadau Gofal, yn ogystal ag yn y nodiadau meddyginiaeth/kardex.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaethau pedwar o gleifion ysbyty Aderyn, a nodi'r canlynol:

- Roedd y ddogfennaeth safonol yn fanwl a chynhwysfawr.
- Cwblhawyd yr asesiadau perthnasol a datblygwyd cynlluniau gofal ar gyfer pob claf.
- Adolygwyd cynlluniau gofal yn rheolaidd drwy gyfrwng cyfarfodydd Adolygu Gofal Unigol, ac fe'u cofnodwyd yn ôl yr angen.
- Nid oedd cydgysylltydd gofal o'r gymuned wedi'i enwebu mewn un ffeil a adolygwyd, ac roedd cynllun gofal a thriniaeth diwethaf y claf yn ddyddiedig Chwefror 2015.
- Roedd y cynlluniau gofal a adolygwyd yn rhoi pwyslais ar y claf ac yn nodi'n glir y cynllun triniaeth, yr amcanion, a'r canlyniadau a oedd i'w cyflawni.
- Roedd pob ffeil a adolygwyd gennym yn meddu ar dystiolaeth o asesiad iechyd corfforol llawn, ac roedd asesiadau'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu'r arferion gorau.

Cam gofynnol

Sicrhau bod gan bob claf gydgysylltydd gofal penodedig.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i ysbyty Aderyn gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn ysbyty Aderyn yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella
Darparwr: Partnerships in Care
Ysbyty: Aderyn
Dyddiadau'r Arolygiad: 17 – 19 Mai 2015

Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Mae angen cynnal a chadw, glanhau, a gwirio cyfarpar ac eitemau bwyd i sicrhau eu bod yn lân neu'n fwytadwy neu'n addas i'w defnyddio, gan roi sylw arbenng i'r peiriant dŵr a bwyd a gedwir yn yr oergelloedd.	26 (2) (a) (b)			
Mae gofyn adolygu'r profiad bwyta i sicrhau bod y byrddau	15 (1) (a)			

wedi'u gosod yn addas a bod dŵr ar gael.				
Mae gofyn cael rhaglen o waith cynnal a chadw i sicrhau bod yr ysbyty'n cynnal safonau boddhaol. Mae angen rhoi sylw arbennig i'r gerddi a'r iard, gan waredu â'r chwyn o blastar wal yr ysbyty ac ymdrin â'r paent sy'n pilio. Dylid rhoi sylw i'r clinig/ystafell driniaeth er mwyn adnewyddu blaenau'r droriau a'r llawr a ddifrodwyd.	26 (2) (a) (b)			
Mae angen adolygu'r oriau gofal tŷ i sicrhau bod penwythnosau, prynhawniau a gwyliau yn cael eu cyflenwi heb gymryd staff i ffwrdd o ofal uniongyrchol y cleifion.	15 (8) (c) (i)			

Rhaid i'r gwaith gofal tŷ gael ei gyflenwi pan fydd y gofalwr yn absennol, heb gael effaith ar staff sy'n darparu gofal i gleifion.	20 (1) (a)			
Mae angen adolygu'r lefelau staffio er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â chynlluniau gofal y cleifion.	20 (1) (a)			
Dylid darparu a chynnal goruchwyliaeth glinigol ar gyfer pob aelod o staff yn rheolaidd.	20 (2) (a)			
Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr ar bob aelod o staff ar y system Nodiadau Gofal i sicrhau bod cofnodion	20 (1) (a) a (2) (a)			

cleifion yn cael eu cynnal yn gymwys.				
Mae angen i bob cwyn gael gwybodaeth gynhwysfawr yn y ffeil a thystiolaeth i ddangos y rheswm am y canlyniad.	24 (2) a (5)			
Mae angen cynnal adolygiad o'r materion a oedd yn peri bod morâl y staff yn amrywio, gyda'r nod o'i wella.	18 (2) (a) (b)			
Sicrhau bod gan bob claf gydgysylltydd gofal penodedig.	15 (1) (a)			